

**PWYLLGOR SAFONAU**  
**DYDD LLUN, 3 CHWEFROR 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Clwyd, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 3 Chwefror 2020

**PRESENNOL: Julia Hughes (Is-gadeirydd yn y Gadair)**

Cynghorwyr:

Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau cyfetholedig:

Phillipa Earlam, Jonathan Duggan-Keen, Ken Molyneux, a Mark Morgan

**YMDDIHEURIADAU:** Rob Dewey

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorwyr: Bernie Attridge, Helen Brown, Carol Ellis, Veronica Gay, Mike Peers, ac Ian Roberts

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro, a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**55. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim

**56. COFNODION**

(i) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2019.

(ii) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020.

Materion yn codi

Tudalen 8, munud 53, cyfeiriodd Julia Hughes at y cytundeb y byddai eitem yn cael ei chynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i alluogi'r Pwyllgor i ystyried creu is-bwyllgor er mwyn ystyried unrhyw geisiadau brys am oddefebau. Esboniodd y Swyddog Monitro, gan fod y rheoliadau ynghylch sefydlu is-bwyllgor yn gymhleth, fod angen mwy o amser i gyflwyno adroddiad cynhwysfawr i'w ystyried.

Gofynnodd Ken Molyneux a ellid darparu gwybodaeth i weld pa mor aml y bu'n rhaid i'r Pwyllgor ystyried ceisiadau brys am oddefebau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Cofnodion yn cael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

## 57. GODDEFEBAU

### Y Cynghorydd Dennis Hutchinson

Gan nad oedd y Cynghorydd Hutchinson yn bresennol cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro y ddau gais am oddefebau.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod y Cynghorydd Hutchinson wedi ceisio cael caniatâd i siarad am 5 munud fel Aelod Lleol yn y Pwyllgor Cynllunio ar gais rhif 060587 – dymchwel 81 Drury Lane a chodi 56 o anheddau a datblygiad cysylltiedig. Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro at y buddiant sy'n rhagfarnu, fel y nodir yn y cais, ac esboniodd fod y Cynghorydd Hutchinson wedi dweud wrtho ei fod wedi gwerthu'r tir yr oedd yn berchen arno yn ddiweddar a oedd o fewn milltir i safle'r cais ac na allai'r penderfyniad ar y cais effeithio ar y trafodiad hwn hyd y gwyddai. Fodd bynnag, roedd hefyd yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Drury a phe bai'r bwriad i ddatblygu tir yn 81 Drury Lane yn cael caniatâd cynllunio byddai angen gwneud cyfraniad ariannol i Ysgol Gynradd Drury yn unol â'r canllawiau cynllunio atodol perthnasol.

Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro hefyd at gais blaenorol am oddefeb a wnaed gan y Cynghorydd Hutchinson ynglŷn â'r safle ond esboniodd fod hyn wedi bod mewn perthynas â chais am ganiatâd cynllunio amlinellol lle nad oedd manylion pa gyfraniadau y gallai fod eu hangen yn hysbys.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod y Cynghorydd Hutchinson yn gwneud cais am oddefeb i siarad am 5 munud yn unig fel aelod lleol, a chyfeiriodd at feini prawf perthnasol (f) o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Cynigiodd y Cynghorydd Phillipa Earlam y dylid caniatáu'r oddefeb fel mai dim ond am 5 munud y gallai'r Cynghorydd Dennis Hutchinson siarad fel yr Aelod Lleol yn y Pwyllgor Cynllunio ar gais rhif 060587. Yr oddefeb i'w chaniatáu am 12 mis.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan Phillipa Earlam a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Arnold Woolley.

Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro at gais pellach am oddefeb a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Dennis Hutchinson i siarad am 5 munud fel yr Aelod Lleol yn y Pwyllgor Cynllunio ar gais rhif 060374 – addasu bwyty/bar diangen yn 13 o fflatiau yn 14 Mill Lane, Bwcle. Cyfeiriodd y Dirprwy Swyddog Monitro at y cysylltiad a ddatganwyd gan y Cynghorydd Hutchinson, fel y nodir yn y cais, a dywedodd, gan ei fod yn fuddiant personol ac nid yn rhagfarnu, nad oedd angen i'r cais am oddefeb gael ei ystyried gan y Pwyllgor.

### PENDERFYNWYD:

Caniatáu'r oddefeb o dan baragraff (f) o'r Pwyllgor Safonau (Caniatáu Gollyniadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Sir y Fflint Dennis Hutchinson siarad am 5 munud yn unig fel Aelod Lleol yn y Pwyllgor Cynllunio ar gais rhif 060587. Yr oddefeb i'w chaniatáu am 12 mis gan ddod i ben ar 2 Chwefror 2021 ac i ymestyn i unrhyw gais cynllunio a oedd, ym marn y Swyddog Monitro, yn sylweddol debyg.

## 58. CYSWLLT AR FATERION MOESGOL GYDA'R CYNGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi adborth o'r cyfarfod rhwng Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau ym mis Tachwedd 2019. Dywedodd fod pob parti yn teimlo bod y cyfarfod wedi bod yn gynhyrchiol a chytunwyd y dylai'r Aelodau Annibynnol ymweld â chyfarfodydd llawn y Cyngor a'r Pwyllgor i arsylwi yn yr un modd ag yr oeddent wedi mynychu cyfarfodydd y Cyngorau Tref a Chymuned; ac y dylai cyfarfodydd o'r fath, yn y dyfodol, gynnwys Arweinwyr Grŵp.

Cytunwyd yn y cyfarfod y byddai Aelodau Annibynnol yn ymweld â chyfarfodydd y Cyngor Sir yn yr un modd ag yr oeddent wedi ymweld â chynghorau tref a chymuned. Esboniodd y Swyddog Monitro fod gan y Cyngor chwe Phwyllgor Trosolwg a Chraffu, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Cynllunio a'r Pwyllgor Trwyddedu. Roedd hefyd yn cyfarfod o bryd i'w gilydd fel Cyngor llawn lle'r oedd pob aelod yn bresennol a bod nifer o bwyllgorau cyflogaeth sy'n cyfarfod pan fo angen. Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod yn bwysig, fel gydag ymweliadau gan Aelodau Annibynnol â Chynghorau Tref a Chymuned, fod yr ymarfer yn cael ei gynnal yn y ffordd gywir ac y dylid hysbysu Cadeirydd pob cyfarfod y byddai Aelod Annibynnol yn ymweld â'i gyfarfod. Ni fyddai Aelodau Annibynnol yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd ond byddent yn arsylwi ac yn rhoi adborth i'r Pwyllgor Safonau.

Mynegodd y Cynghorydd Paul Johnson bryder ynghylch gwrthdaro buddiannau pe gofynnid i Aelodau ystyried adborth ar ôl arsylwi cyfarfodydd y Cyngor yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt. Dywedodd y Cadeirydd y byddai Aelodau Annibynnol sy'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau yn gallu rhoi adborth ar eu profiad a fyddai'n adlewyrchu profiad aelod o'r cyhoedd a oedd yn bresennol. Esboniodd y Swyddog Monitro mai diben yr ymweliadau gan Aelodau Annibynnol oedd arsylwi, er enghraifft, a oedd Cynghorwyr yn dilyn y Cod Ymddygiad, Safonau Sir y Fflint, Protocol Aelodau/Swyddogion, ac yn y Pwyllgor Cynllunio y Protocol Cynllunio. Dywedodd na fyddai unigolion sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cael eu henwi yn yr adborth.

Awgrymodd Ken Molyneux, fel gydag ymweliadau â Chynghorau Tref a Chymuned, y dylid darparu rhestr o'r gofynion i gynorthwyo Aelodau Annibynnol i ymgymryd â'r dasg hon.

Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai gofyn i Arweinydd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd (Pwyllgorau) drefnu rota o ymweliadau ag Aelodau Annibynnol.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Johnson y dylai fod yn ofynnol i ddau Aelod Annibynnol ymweld â chyfarfodydd y Cyngor Sir. Eiliwyd hyn gan Ken Molyneux ac fe'i cytunwyd gan y Pwyllgor. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai cyfarfodydd cyswllt moesegol yn y dyfodol gynnwys Arweinwyr Grwpiau.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd Patrick Heesom a chawsant eu heilio gan y Cynghorydd Arnold Woolley

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Bod Aelodau Annibynnol yn arsylwi cyfarfodydd llawn y Cyngor a'r Pwyllgorau;
- (b) Bod Arweinydd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd (Pwyllgorau) yn trefnu rota o ymweliadau ag Aelodau Annibynnol; ac y
- (c) Dylai cyfarfodydd cyswllt moesegol yn y dyfodol gynnwys Arweinwyr Grŵp.

## **59. FFORWM PWYLLGOR SAFONAU GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU**

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at e-bost a gafodd gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Cyngor Sir Powys, ac eglurodd mai diben y neges oedd gofyn y canlynol :

- (i) bod y Pwyllgor Safonau yn ymgynghori ar eitemau posibl ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd a Chanolbarth Cymru ac yn rhoi adborth ar unrhyw awgrymiadau i'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Powys; a
- (ii) bod y Pwyllgor Safonau yn nodi pa fis ac amser fyddai orau ganddo ar gyfer y cyfarfod nesaf (Mawrth neu Ebrill 2020)

Cynigiodd y Cynghorydd Patrick Heesom fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, yn cyflwyno eitemau posibl ar gyfer cyfarfod nesaf Fforwm y Pwyllgor Safonau. Cafodd hyn ei eilio a'i gytuno'n briodol gan y Pwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Ebrill a'i ddechrau am 10.00 a.m. neu'n hwyrach.

## **60. MATERION YMDDYGIAD YN DILYN YR ETHOLIAD**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i ystyried unrhyw gwynion moesegol yn dilyn yr etholiad seneddol diweddar. Darparodd wybodaeth gefndirol ac eglurodd nad oedd y Cyngor (fel corff corfforaethol) a Chynghorwyr Sir yn ymwneud yn uniongyrchol â'r etholiad. Yn y cyfnod cyn yr etholiad, gweithredodd y Cyngor ei brotocol cyn-etholiad i leihau'r risg o broblemau neu anawsterau. Atgoffodd y protcol hwn swyddogion o'r angen i sicrhau bod y Cyngor yn parhau'n ddiuedd yn ystod etholiad a thrwy gydol cyfnod yr ymgyrch. Roedd y Cyngor wedi ystyried yn ofalus pa faterion y byddai'n eu trafod yn y Pwyllgor neu yng nghyfarfodydd y Cyngor.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod yr ymgyrch etholiadol wedi cael ei rhedeg yn dda gan bob ymgeisydd a pharti heb unrhyw achosion o ymddygiad gwael gan Gynghorwyr Sir nac unrhyw un arall.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Patrick Heesom y Swyddog Monitro a'i dîm am eu gwaith yn ystod yr etholiad seneddol a dywedodd ei fod wedi'i reoli'n dda.

Soniodd y Cynghorydd Paul Johnson am yr angen i gynnal safonau uchel drwy gydol yr etholiadau sydd i ddod, gan gyfeirio at etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu fel enghraifft.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gynnig gan y Cynghorydd Paul Johnson a'i eilio gan y Cynghorydd Patrick Heesom.

#### **PENDERFYNWYD:**

Bod yr adroddiad yn cael ei nodi.

#### **61. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Ystyriwyd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Tynnodd y Swyddog Monitro sylw at yr eitemau a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 2 Mawrth, ac esboniodd, cyn dechrau'r cyfarfod nesaf, y byddai'n dangos system ddigidol newydd a oedd wedi'i chreu i gofnodi Datganiadau o Gysylltiad y gallai fod angen i Swyddogion eu gwneud.

Awgrymodd y Cynghorydd Paul Johnson y dylid cael eitem ar unrhyw rannau o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Safonau. Dywedodd y Swyddog Monitro fod yr unig gynnig, i Arweinwyr Grŵp fod yn gyfrifol am gefnogi safonau moesegol, ar waith eisoes o fewn Sir y Fflint.

Cynigiwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Arnold Woolley a'i eilio gan Ken Molyneux.

#### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

#### **62. GWRANDAWIAD GERBRON PANEL DYFARNU CYMRU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad gwrandawriad diweddar Panel Dyfarnu Cymru mewn perthynas â'r Cynghorydd A Shotton.

Darparodd y Swyddog Monitro wybodaeth gefndirol a rhoddodd drosolwg o'r gwrandawriad ar 27, 28 a 29 Ionawr 2020, a gynhaliwyd yn Llys Ynadon Llandudno. Esboniodd fod rhannau o'r gwrandawriad wedi'u cynnal yn breifat ac na ellid eu datgelu i'r Pwyllgor er mwyn cadw cyfrinachedd.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Tribiwnlys yr Achos wedi canfod drwy benderfyniad unfrydol fod y Cynghorydd A Shotton wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad yr Awdurdod a'i fod wedi torri Paragraffau 6(1)(a) a 7(a) o'r Cod drwy, yn rhinwedd ei swydd swyddogol gan ddefnyddio neu geisio defnyddio ei safle'n amhriodol i roi mantais iddo'i hun neu sicrhau iddo'i hun neu ei Gynorthwydd Personol neu greu neu osgoi iddo'i hun neu ei Gynorthwydd Personol anfantais drwy roi cyfle i weld cwestiynau cyn ei chyfweliad am swydd barhaol Cynorthwydd Personol; a bod y Cynghorydd Shotton wedi torri 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad drwy anfon a/neu annog ei Gynorthwydd Personol i anfon negeseuon amhriodol, i gynnwys negeseuon o natur rywiol, yn ystod oriau

swyddfa. Penderfynodd Tribiwnlys yr Achos drwy benderfyniad unfrydol y dylid gwahardd y Cynghorydd A Shotton rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Sir y Fflint am gyfnod o dri mis. Dywedodd y Swyddog Monitro fod gan y Cynghorydd Shotton yr hawl i geisio caniatâd yr Uchel Lys i apelio yn erbyn y penderfyniad uchod. Byddai'r adroddiad llawn am y penderfyniad yn cael ei gyhoeddi ar wefan Panel Dyfarnu Cymru maes o law.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod Tribiwnlys yr Achos wedi canfod nad oedd y Cynghorydd Shotton wedi torri'r Cod Ymddygiad mewn perthynas â thrydydd honiad a gyfeiriwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, esboniodd y Swyddog Monitro fod y Cyngor, o ganlyniad i'r honiad, wedi gwella ei weithdrefnau a bod yn rhaid i reolwr gymeradwyo cais i archebu car llog yn y dyfodol.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod gweithlu'r Cyngor wedi cael gwybod bod y Cynghorydd A Shotton wedi'i wahardd dros dro fel aelod o'r Cyngor am gyfnod o dri mis o ganlyniad i benderfyniad Panel Dyfarnu Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y Cynghorydd Shotton i gael ei drin, dros dro, fel aelod o'r cyhoedd a dim ond i rannau cyhoeddus o safle'r Cyngor yr oedd ganddo hawl i gael mynediad iddynt. Yn yr un modd, cyfyngwyd ei hawliau i wybodaeth yn ystod y cyfnod hwn ac nid oedd ganddo hawl i unrhyw bapurau na gwybodaeth yn ymwneud â busnes cyfrinachol y Cyngor. Roedd hysbysiad bod y Cynghorydd A Shotton wedi'i wahardd tan 29 Ebrill 2020 hefyd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r Cynghorydd Shotton yn gallu aildechrau ei rôl a'i gyfrifoldebau fel Cynghorydd Sir pan fyddai cyfnod y gwaharddiad yn dod i ben.

Ymatebodd y Swyddog Monitro i'r sylwadau a godwyd ynghylch canfyddiadau'r Tribiwnlys Achos. Yn ystod y drafodaeth, eglurodd fod gan y Cyngor ystod eang o bolisiâu cyflogaeth a fyddai'n cael eu hadolygu yng ngoleuni'r gwrandawriad i ystyried a oedd angen ei ddiwygio. Dywedodd y Swyddog Monitro y byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i ystyried canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru ymhellach ac adolygu'r Protocol Aelod/Swyddogion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

### **PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

### **63. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30 pm a daeth i ben am 8.15 pm)

.....  
**Cadeirydd**